

Adroddiad i'r **Cyngor Sir**

Dyddiad y cyfarfod **23^{ain} Chwefror 2021**

Aelod/Swyddog Arweiniol **Y Cyngorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff,
Cludiant a'r Amgylchedd**

Yn cyflwyno'r adroddiad **Y Cyngorydd Arwel Roberts, Cadeirydd y Pwyllgor
Craffu Perfformiad.**

Awdur yr Adroddiad **Heidi Barton-Price – Swyddog Cynllunio Strategol a
Pherfformiad
ar ran Grŵp Tasg a Gorffen "Defnydd o Blastig" yr Aelodau
(Cadeirydd, y Cyngorydd Emrys Wynne)**

Teitl **Osgoi a Lleihau Plastig yn Swyddfeydd Cyngor Sir
Ddinbych**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ystyried yr argymhellion a gynigir gan Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig yr Aelodau (yn dilyn cyfarfod y grŵp ar 23^{ain} Tachwedd 2020). Rhoddodd y cyfarfod ddiweddariad i'r Aelodau er mwyn iddynt ystyried y ffordd ymlaen i Grŵp Tasg A Gorffen "Defnydd o Blastig" yr Aelodau, hyfywedd Cam 2 fel yr amlinellir yn y cynllun gweithredu cysylltiol gwreiddiol ac unrhyw gamau pellach. Cefnogwyd yr argymhellion gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad (Arbennig) yn eu cyfarfod ar 22^{ain} Rhagfyr 2020. Mae'r adroddiad yn ystyried sut y gall y Cyngor leihau ei ddefnydd o blastig. Nid yw'n ystyried sut y gall preswylwyr neu gymunedau o fewn y Sir leihau eu defnydd o blastig.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cydnabod gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen o ran llwyddiannau yn ystod Cam 1 h.y. osgoi a lleihau defnyddio plastigau untro mewn swyddfeydd dinesig.

2.2 Galluogi'r Aelodau i graffu ar yr argymhellion a gynigir fel ffordd ymlaen o ran Cam 2 a dyfodol y Grŵp.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Cyngor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen hyd yma a chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu Perfformiad:

- (i) o ystyried amgylchiadau presennol pandemig byd-eang COVID-19, na ddylai Cam 2 gwaith y Grŵp barhau a bod y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei wasgaru;
- (ii) bod cyfleoedd i leihau'r defnydd o blastigau yn nhrefniadau arlwygo a chaffael ysgolion, ynghyd ag unrhyw waith i'r dyfodol o ran osgoi a lleihau defnyddio plastigau yng Nghyngor Sir Ddinbych (gan gynnwys ei Fodelau Cyflwyno Amgen megis Hamdden Sir Ddinbych Cyf) yn cael eu cydlynu o dan y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig;
- (iii) bod cais i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu benderfynu ar y fforwm mwyaf effeithiol ar gyfer monitro gweithredu a chyflawni lleihau'r defnydd o blastigau o fewn Cyngor Sir Ddinbych a Strategaeth Ecolegol a Hinsawdd ehangach y Cyngor.

4. Manylion yr Adroddiad

Ar ddiwedd Ionawr 2020, cymeradwyodd y Cyngor llawn yr argymhellion a gynhwyswyd yng nghynllun gweithredu Grŵp Tasg a Gorffen i leihau'r defnydd o blastigau mewn swyddfeydd dinesig (Cam 1). Cytunodd y Cyngor llawn hefyd i gais y Grŵp i barhau gyda'i waith am 12 mis arall gyda'r bwriad o ddyfeisio dulliau i leihau'r defnydd o blastigau mewn dau faes penodol, sef arlwygo mewn ysgolion a chaffael (Cam 2).

O fewn mater o wythnosau i wneud y penderfyniad uchod daeth pandemig COVID-19 a rhoddwyd y wlad o dan glo.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r argymhellion a gynigir yn dilyn cyfarfod diweddar o Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig yr Aelodau, lle roedd y grŵp yn cydnabod llwyddiannau Cam 1 o ran lleihau defnydd o blastigau mewn swyddfeydd dinesig ac ystyried ffordd ymlaen o ran y gwaith y gofynnwyd iddo'i gyflawni, ond methwyd â symud ymlaen at Gam 2 (Arlwygo Ysgolion a Chaffael) oherwydd y pandemig. Gweler Atodiad A – Sefyllfa Bresennol ac Ystyriaethau Pellach y Grŵp Tasg a Gorffen.

Mae swyddogion sy'n rhan o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol – yn awgrymu fod yr argymhelliad (ii) yn cynnwys y geiriau canlynol a amlygwyd mewn print tywyll 'Cyfleoedd i leihau defnydd o blastigau mewn arlwyyo ysgolion a chaffael **er budd lleihau allyriadau carbon**, ynghyd ag unrhyw waith i'r dyfodol er mwyn osgoi a lleihau plastigau yng nghyngor Sir Ddinbych (gan gynnwys Modelau Cyflawni Amgen e.e. Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i'w gydlynu o dan y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig.

Byddai camau i gefnogi osgoi a lleihau plastigau yn dod o dan ffrydiau gwaith Gwastraff a Chadwyn Gyflenwi yn y Rhaglen Sero Carbon Net yn Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig y Cyngor. Bydd camau sy'n lleihau carbon o wastraff a'n cadwyn gyflenwi yn cael eu datblygu a'u cyflawni dros y 9 mlynedd nesaf, yn amodol ar dderbyn arian. Bydd camau penodol sy'n lleihau carbon o wastraff a'r gadwyn gyflenwi yn dod â budd arall yn ei sgil sef osgoi a lleihau plastigau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth Amgylcheddol a gynhwysir o fewn y Cynllun Corfforaethol 2017–2022.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes yna oblygiadau ariannol sylweddol na goblygiadau o ran Gwasanaethau o ganlyniad i'r argymhellion.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae'r Asesiad Effaith ar Les yn asesiad integredig o'r effaith. Mae hyn yn golygu ei fod wedi'i gynllunio i asesu effaith debygol ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir Ddinbych, Cymru a'r byd. Mae'r cynnig i'r gwaith gael ei gydlynu o dan y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig yn dangos dull gweithio cynaliadwy o ran yr amgylchedd ac mae'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y nodau lles cyffredinol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig yr Aelodau wedi gwneud yr argymhellion hyn i Craffu Perfformiad ar ôl ymgynghori â'r Swyddogion perthnasol gan gynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus, Pennaeth Priffyrdd, Gwasanaethau Cyfleusterau a'r Amgylchedd, Rheolwyr Arlwy Ysgolion, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd yn ogystal a'r Cynghorydd Brian Jones (Aelod Arweiniol) a'r Cynghorydd Graham Timms (Cadeirydd Gweithgor Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn ogystal a bod yn aelod o'r Grŵp Tasg A Gorffen Plastigau).

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gynigion ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg fod peth ysgogiad yn cael ei golli gan na fydd y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn rhoi ffocws penodol o ran osgoi a lleihau plastigau untro. Ond, efallai y bydd deddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei chyflwyno yn ystod hydref 2021 gyda'r nod o leihau defnydd o blastigau untro ar draws Cymru, yn helpu i gyflawni amcanion gwaith Cam 2 y Grŵp. O dan y ddeddfwriaeth arfaethedig bydd gofyn i gyrrff cyhoeddus ac eraill yng Nghymru leihau eu defnydd o blastigau untro. Bydd hyn yn gofyn i holl wasanaethau'r Cyngor ail werthuso eu defnydd o blastigau untro a cheisio cynnyrch sydd wedi ei wneud o ddefnyddiau eraill at bob diben ar wahân i'r rhai sydd wedi eu heithrio o dan y ddeddf.

Ond, gallai cadw Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Blastig yr Aelodau olygu dyblygu'r gwaith a gwyro amser yr Aelodau ar gyd-destun ehangach a helaethach y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a fydd yn arwain at leihau'r defnydd o blastig.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â Datblygu ac Adolygu Polisi wedi'u hamlinellu yn Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor, tra bod Adran 7.2.2 o'r Gyfansoddiad yn amodi y gall y Pwyllgor Craffu "wneud adroddiadau neu argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â rhyddhau unrhyw swyddogaethau".

Atodiad A – Sefyllfa Bresennol ac Ystyriaethau Pellach y Grŵp Tasg a Gorffen.

Swyddfeydd Dinesig (Cam 1): Amcanion Cam 1 wedi eu cyflawni. Mae pob peiriant lluniaeth, peiriannau gwerthu a chyfarpar oeri dŵr wedi eu diffodd ers diwedd mis Mawrth 2020. Mae rhai o'r peiriannau eisoes wedi eu casglu gan gyflenwyr a'r gweddill yn aros i gael eu casglu. Bu oedi o ran cael gwared arnynt, yn debyg i nifer o wasanaethau a thasgau eraill, oherwydd pandemig COVID-19.

Arlwyo Ysgolion (Cam 2): Mae effaith pandemig COVID-19 ar Wasanaeth Arlwyo Ysgolion, wedi arwain at fod angen mesurau diogelwch bwyd ychwanegol er mwyn lleihau risg heintio wrth ddarparu prydau ysgol i ddisgyblion y sir. O ganlyniad i hyn, mae mwy o blastigau a pholystyren yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan Wasanaeth Arlwyo Ysgolion na chyn y pandemig. Dywedodd Swyddogion wrth y Grŵp Tasg a Gorffen, oherwydd y cyfyngiadau, gofynion a disgwyliadau presennol fod y nod o leihau ei ddefnydd o'r deunyddiau hyn yn cael ei roi ar encil hyd nes y bydd y pandemig drosodd.

Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig: Yn ystod camau cynnar y gwaith, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi archwilio defnydd Gwasanaeth Hamdden y Cyngor o blastigau untro i'w taflu, ac wedi penderfynu canolbwyntio ar geisio lleihau defnydd y Gwasanaeth o ddeunyddiau plastig yn nes ymlaen. Ers hynny roedd rheoli darpariaeth gwasanaeth hamdden yn y sir wedi trosglwyddo i Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ac felly mae bellach y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor. O ganlyniad, roedd archwilio defnydd Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig o blastigau bellach y tu allan i gylch gwaith y Grŵp, gan fod gan Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ei drefniadau a strwythur rheoli ei hun ar ffurf Bwrdd Llywodraethu Strategol, ac roedd cynrychiolaeth o Aelodau Arweiniol a Chraffu yn rhan ohono.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Leihau Plastigau Untro: Mae Sir Ddinbych wedi ymateb fel rhan o ymateb cyfunol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Lywodraeth Cymru sy'n cydnabod brys yr angen i fynd i'r afael â phroblemau sy'n rhan o ddefnyddio plastigau untro. Roedd yr ymateb yn cynnwys pryderon o ran effaith COVID-19 ar ddefnydd o blastigau, yr angen parhaus i ddibenion iechyd a diogelwch a rheoli heintio ddefnyddio plastigau untro er mwyn cyflawni rhai gwasanaethau, yn ogystal a materion ymarferol o ran gorfodi rholiadau newydd ac oblygiadau ariannol gwaith gorfodi. Mae

pryderon wedi eu codi hefyd o ran amseriad arfaethedig cyflwyno'r gwaharddiad, sef hydref 2021. Rydym yn aros ar hyn o bryd am adborth o'r ymgynghoriad, i'w gyfathrebu drwy gyfrwng grŵp Cyfarwyddwyr yr Amgylchedd yn CLILC.

Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol: Gallai camau i gefnogi osgoi a lleihau plastigau ddod o dan ffrydiau gwaith Gwastraff a Chadwyn Gyflenwi yn y Rhaglen Sero Carbon Net o fewn Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig y Cyngor. Bydd camau sy'n lleihau carbon o wastraff a'n cadwyn gyflenwi yn cael eu datblygu a'u cyflawni dros y 9 mlynedd nesaf, yn amodol ar dderbyn arian. Byddai camau penodol sy'n lleihau carbon o wastraff a'r gadwyn gyflenwi yn dod â budd arall yn ei sgil sef osgoi a lleihau plastigau.